# Sŵn o "Waith y Cartref"

Mae gwaith y cartref (DIY) yn cynnwys adeiladu, addasu neu atgyweirio rhywbeth heb gymorth arbenigwyr neu weithwyr proffesiynol.

Mae prosiectau'n gallu amrywio o dasgau bach fel newid ffiws neu ailbaentio ystafell i fentrau mawr fel ailfodelu tu mewn eiddo, ailosod nodweddion adeileddol, neu osod gwaith plymio a thrydanol newydd. Nid yw gwaith y cartref wedi'i gyfyngu i waith dan do – mae prosiectau awyr agored megis estyniadau, gwaith tirlunio ac ychwanegu ystafelloedd haul hefyd yn gyffredin.

Yn gyffredinol, po fwyaf yw'r prosiect, y mwyaf yw'r tebygolrwydd o darfu ar gymdogion. Dyna pam mae'n bwysig meddwl ymlaen ac ystyried sut i leihau'r effaith cyn dechrau unrhyw waith.

## Pa broblemau sy'n gallu codi o waith y cartref?

Mae prosiectau gwaith y cartref yn gallu achosi sawl math o anghydfod, gan gynnwys:

- Rhwystro mynediad
- Mwd ar lwybrau cyhoeddus neu ffyrdd
- Anghydfodau o ran ffiniau
- Gosod sgipiau'n amhriodol

Fodd bynnag, dim ond y tair cwyn fwyaf cyffredin y mae'n ofynnol i Dîm Rheoli Llygredd y Cyngor ymchwilio iddynt:

- **Sŵn** (gan gynnwys dirgrynu)
- **Mwg coelcerth** trwy losgi gwastraff
- **Allyriadau llwch** o safleoedd diwydiannol/masnach

## Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am niwsans sy'n cael ei achosi gan waith y cartref?

Nid yw cyfraith y DU yn gosod oriau neu ddyddiau penodol pan fo gwaith y cartref yn gallu cael ei wneud neu pan nad yw'n gallu cael ei wneud. Mae hyn yn golygu bod unigolion, yn gyffredinol, yn rhydd i wneud gwaith ar adegau cyfleus iddyn nhw – yn aml gyda'r nos, ar benwythnosau neu yn ystod gwyliau banc. Fodd bynnag, **nid** yw'r rhyddid hwn yn rhoi hawl i bobl wneud gwaith aflonyddgar heb ystyried eu cymdogion.

## Beth sy'n digwydd mewn sefyllfaoedd lle mae problemau niwsans yn codi o waith y cartref?

Hyd yn oed heb gyfyngiadau cyfreithiol llym, mae'r Cyngor yn aml yn camu i mewn i helpu i drafod atebion ymarferol pan fydd gwaith y cartref yn achosi aflonyddwch. Rydym yn cydnabod bod llawer o bobl yn gweithio yn ystod y dydd ac yn gorfod cwblhau gwelliannau cartref yn eu hamser rhydd. Weithiau yn achos argyfyngau, megis gollyngiadau dŵr, mae gallu bod angen gwaith atgyweirio brys a swnllyd nad oes modd ei ohirio.

Wedi dweud hynny, mae gan bawb hawl i heddwch a thawelwch rhesymol, yn enwedig gyda'r hwyr ac ar benwythnosau. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn aelwydydd lle mae plant iau. Mae'r Cyngor yn gweithio i gydbwyso anghenion y ddau barti: y rhai sy'n ymgymryd â gwaith y cartref a'r rhai mae'r gwaith hwn yn effeithio arnyn nhw.

### Pa amserau sy'n cael eu hystyried yn rhesymol ar gyfer gwaith y cartref?

Er mwyn lleihau tarfu, rydym yn argymell cyfyngu gwaith y cartref sy'n swnllyd i'r amserau canlynol:

- **Dydd Llun i ddydd Gwener:** 8.00am - 7.30pm
- **Dydd Sadwrn:** 8:00am - 5:00pm
- **Dydd Sul a Gwyliau Banc:** 10:00am – 2:00pm

**Nid** yw'r rhain yn **derfynau cyfreithiol**, ond maen nhw'n ganllawiau rydym yn eu hawgrymu i hybu dangos ystyriaeth i gymdogion. Mae sgwrs syml â'ch cymdogion ymlaen llaw yn gallu bod o fudd mawr yn hyn o beth.

### Defnyddio offer llogi

Mae mwy o bobl yn llogi offer gwaith trwm megis morthwylion niwmatig, cymysgwyr sment, llifiau pŵer mawr a generaduron. Mae'r offer hyn yn gallu bod yn llawer mwy swnllyd nag offer cartref arferol. Os byddwch chi'n eu defnyddio, rhowch ystyriaeth benodol i'r lefel uwch o sŵn a chymerwch ofal ychwanegol i leihau aflonyddwch.

### Gwaith y cartref mewn eiddo heb ei feddiannu

Does dim byd i gyfyngu perchnogion eiddo rhag ymgymryd â gwaith y cartref yn eu heiddo tra ei fod heb ei feddiannu neu mewn cyflwr anaddas i fyw ynddo. Er i ni ddisgwyl y byddai'r mwyafrif o'r gwaith yn cael ei gwneud o fewn yr oriau a bennir fel arfer ar gyfer safleoedd adeiladu, sef:

Llun-Gwe: 08:00 - 18:00

Sadwrn: 08:00 - 13:00

Dydd Sul/Gŵyl y Banc: Argymhellir dim gwaith swnllyd

rydyn ni’n derbyn y gallai perchnogion eiddo ymgymryd â pheth gwaith y cartref eu hunain y tu allan i'r oriau hynny ac mae rhywfaint o hyblygrwydd gyda'r oriau hyn yn cael ei gydnabod.

## Gwaith mawr ac offer arbenigol

Ar gyfer prosiectau gwaith y cartref ar raddfa fawr y byddech fel arfer yn disgwyl iddynt gael eu gwneud gan gontractwyr neu beiriannau pŵer – megis ailosod toeau, dymchwel, neu dorri concrit, rydyn ni’n argymell cadw at oriau safleoedd adeiladu safonol (a restrir uchod).

Mae prosiectau sy'n gofyn am ganiatâd cynllunio yn gyffredinol yn cael eu hystyried yn waith mawr, a bydden ni’n disgwyl i unrhyw weithgareddau swnllyd sy'n gysylltiedig â nhw gael eu cyfyngu i'r un oriau.

Dylid nodi y gallai’r fath waith allanol achosi aflonyddwch ehangach.

## Beth sy'n digwydd os yw'n amhosibl dod o hyd i drefniant cyfaddawdol?

Mewn achosion difrifol, lle mae sŵn, mwg neu lwch yn ymyrryd yn sylweddol â gallu cymydog i fwynhau ei eiddo, mae’r Cyngor yn gallu ymchwilio i’r mater a chymryd camau gorfodi. Os bydd angen, mae modd cyflwyno **hysbysiad atal cyfreithiol rwymol** i reoli'r niwsans trwy osod amodau gwaith penodol neu derfynau amser.

Mae'n bwysig nodi nad yw hyn fel arfer yn golygu stop llwyr i'r gwaith – dim ond mesurau rheoli llymach i leihau ei effaith. Ar yr un pryd, er bod yn rhaid i bobl sy’n gwneud gwaith y cartref roi ystyriaeth i’w cymdogion, dylai cymdogion hefyd gydnabod nad oes modd osgoi aflonyddwch ym mhob achos. Lle bynnag y bo modd, mae'r Cyngor yn ceisio penderfyniadau anffurfiol cyn ystyried camau cyfreithiol, gan fod casglu digon o dystiolaeth yn gallu bod yn broses sy'n cymryd llawer o amser.

## Beth dylech chi ei wneud os yw gwaith y cartref yn achosi niwsans i chi?

Rydyn ni’n annog preswylwyr i siarad yn uniongyrchol â'u cymdogion cyn cysylltu â’r Cyngor. Gellir datrys llawer o faterion yn gyflym ac yn gyfeillgar trwy sgwrs gyfeillgar. Er nad yw'n ofynnol yn gyfreithiol i chi wneud hynny, yn aml dyma'r cam cyntaf mwyaf effeithiol.

Os nad yw siarad yn uniongyrchol yn helpu, neu os ydych chi'n anghyfforddus yn cysylltu â'r person sy'n gyfrifol, mae’r Cyngor yn gallu ymchwilio i'ch cwyn. Ewch i Llygredd Sŵn ac Aer i gael rhagor o wybodaeth a manylion am sut i wneud cwyn.